Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro
# Lefel y gweithgarwch dilynol:  Gwelliant Sylweddol

**Ysgol Gynradd Pontiets**
**Heol Llanelli**
**Pontiets**
**Llanelli**
**Caerfyrddin**
**SA15 5UB**

**Dyddiad yr ymweliad:  Rhagfyr 2018**

**gan**

**Estyn, Prif Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Ysgol Pontiets wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd diweddaraf.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r ysgol o'r rhestr ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol arnynt.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### A1. Gwella medrau darllen ac ysgrifennu Cymraeg disgyblion cyfnod allweddol 2

Ers yr arolygiad craidd, mae medrau darllen ac ysgrifennu Cymraeg llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 wedi datblygu'n dda. Mae arweinwyr yn cynllunio amrediad eang a chyfoethog o brofiadau dysgu mewn llythrennedd. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymateb yn frwdfrydig i weithgareddau symbylol, sydd yn adlewyrchu disgwyliadau uchel y staff.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn darllen yn hyderus yn unol â'u hoedran a'u gallu. Maent yn mwynhau darllen ystod eang o destunau ymestynnol ac yn trafod eu llyfrau yn aeddfed. Maent yn dangos dealltwriaeth dda o'r testun, ac yn hunangywiro yn ddeallus. Mae'r staff yn darparu ystod effeithiol o weithgareddau darllen, er enghraifft darllen dan arweiniad, sy'n cynnig strwythur effeithiol ar gyfer datblygu medrau darllen y disgyblion. Maent yn gwneud defnydd llwyddiannus o ddeunydd ffeithiol a chreadigol er mwyn sicrhau ymglymiad y rhan fwyaf o ddisgyblon. Mae rhan fwyaf y disgyblion mwy galluog yn darllen yn aeddfed a rhugl, gan newid goslef eu llais i greu effaith.

Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n effeithiol mewn amrediad o ffurfiau. Mae rhan fwyaf yn atalnodi a sillafu'n gynyddol hyderus yn unol â'u hoedran a'u gallu, ac yn amrywio cystrawennau'n llwyddiannus. Mae'r athrawon yn defnyddio cynlluniau yn effeithiol er mwyn sicrhau amrediad cyfoethog o brofiadau ysgrifennu mewn gwahanol gyd destunau. Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n ffeithiol a chreadigol i safon dda, er enghraifft wrth greu adroddiad am gyfradd curiad y galon.

Mae'r staff yn modelu iaith yn effeithiol ac yn canolbwyntio'n barhaus ar ddisgwyliadau uchel o ran cywirdeb iaith. Trwy sesiynau gloywi iaith, a gweithgareddau'r siarter iaith, mae rhan fwyaf y disgyblion yn arddangos balchder yn eu Cymreictod. O ganlyniad, mae llawer yn creu gwaith ysgrifenedig o safon dda, er enghraifft wrth greu deialogau a llythyron personol fel rhan o'u gwaith prosiect ar bwll glo Cynheidre.

### A2. Sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau rhifedd ar draws yr ardaloedd dysgu a'r cwricwlwm

Ers yr arolygiad craidd, mae'r staff cyfan wedi derbyn hyfforddiant defnyddiol gan yr awdurdod lleol ynglŷn â'r fframwaith rhifedd. Mae hyn wedi codi eu hyder wrth gynllunio heriau amrywiol ar gyfer disgyblion o allu gwahanol ar draws yr ysgol. Mae arweinwyr yn mabwysiadu dull cyson o gynllunio rhifedd ar draws y cwricwlwm ac mae cynlluniau gwaith athrawon yn amlygu pa fedrau rhifedd i'w cyflwyno pob

pythefnos. Maent yn cynllunio ystod effeithiol o weithgareddau er mwyn herio disgyblion i ddatblygu eu medrau yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da. Maent yn ymddiddori yn eu gwaith, ac yn dyfalbarhau â'u tasgau'n aeddfed.

Yn y cyfnod sylfaen, mae staff yn sicrhau bod cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ymarfer eu medrau rhifedd. Mae hyn yn amlwg o fewn y ddarpariaeth barhaus, yr heriau cyfoethogi, yn ogystal â'r tasgau ffocws. Er enghraifft, mae disgyblion yn cymhwyso eu medrau mesur yn llwyddiannus er mwyn creu mwgwd carnifal. Yn unol ag oedran a gallu, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio unedau ansafonol, fel blociau plastig i fesur, ac yn defnyddio offer mesur safonol yn gywir. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r disgyblion mwy abl yn dadansoddi'r data safonol a gasglwyd er mwyn trafod pwy sydd â'r pen mwyaf a'r lleiaf.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r staff yn sicrhau bod cyfleoedd i ddisgyblion ymarfer eu medrau'n llwyddiannus mewn tasgau ymestynnol, trawsgwricwlaidd sydd yn gweddu i'r thema.

**A3. Sicrhau bod yr addysgu'n cynnig y lefel briodol o her, ac yn meithrin medrau dysgu annibynnol disgyblion er mwyn iddynt gymryd rôl fwy gweithredol yn eu dysgu**

Ym mhob dosbarth, mae gan staff ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion ac maent yn eu herio i wneud eu gorau. Mae'r staff yn defnyddio cwestiynau agored yn effeithiol er mwyn ymestyn a datblygu ymatebion y disgyblion ymhellach. Mae'r cynorthwywyr yn gweithio'n fedrus o fewn y dosbarthiadau gyda disgyblion ag anghenion gwahanol er mwyn eu cynnal a'u hysgogi i ymgymryd â'r tasgau yn llwyddiannus.

Mae athrawon yn gosod disgwyliadau clir ar gyfer y disgyblion er mwyn meithrin eu medrau annibynnol. Mae staff yn creu amgylcheddau ysgogol o fewn y dosbarthiadau sy'n cefnogi'r disgyblion wrth ddarganfod gwybodaeth i ddatrys heriau. Mae llawer o ddisgyblion yn myfyrio'n effeithiol ar feini prawf llwyddiant yn ystod gwersi, er mwyn gwerthuso eu cynnydd eu hunain. Mae disgyblion yn derbyn cyfleoedd rheolaidd i asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion. O ganlyniad, mae gan lawer ddealltwriaeth gadarn o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith. Mae'r athrawon yn casglu syniadau'r disgyblion ar ddechrau pob thema yn effeithiol er mwyn caffael eu barn ac i ddarganfod yr hyn y maent eisoes yn ei wybod. Mae athrawon yn defnyddio amrediad cynyddol o gyfleoedd i ddisgyblion gael mewnbwn i'r hyn y maent yn ei ddysgu. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn dangos diddordeb a brwdfrydedd tuag at eu gwaith, gan arddangos lefel dda o annibyniaeth yn ystod gweithgareddau.

Mae arweinwyr wedi adolygu'r polisi asesu ers yr arolygiad. Golyga hyn fod yr athrawon nawr yn defnyddio gweithdrefnau asesu llwyddiannus wrth roi adborth ar lafar ac yn ysgrifenedig i ddisgyblion. Mae ymateb ysgrifenedig i waith disgyblion yn syml ac yn effeithiol, ac yn rhoi arweiniad clir ar gryfderau a beth sydd angen ei wella.

## A4. Sicrhau bod arweinwyr yn mynd i'r afael â'r materion diogelu

Bellach, mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

## A5. Gwella strwythur arweinyddiaeth yr ysgol er mwyn sicrhau cyfeiriad strategol clir ac atebolrwydd ar bob lefel

Ers yr arolygiad craidd, mae strwythur arweinyddiaeth yr ysgol wedi gwella'n sylweddol.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn chwarae rhan ganolog a gwerthfawr yn natblygiad yr ysgol. Trwy gydweithrediad agos ac effeithiol gyda'r awdurdod lleol, maent wedi ailstrwythuro arweinyddiaeth yr ysgol yn llwyddiannus. Mae'r pennaeth cynorthwyol wedi ei phenodi'n bennaeth gweithredol ers Medi 2018 ac mae trefniadau rheolaethol cadarn wedi eu sefydlu. Mae hyn wedi adeiladu ar y gwaith effeithiol oedd wedi ei sefydlu'n flaenorol. Mae trefniadau cadarn yn eu lle ar gyfer cymryd cyfrifoldeb am yr ysgol yn absenoldeb y pennaeth.

Mae gan y pennaeth gweithredol weledigaeth glir ar gyfer datblygiad yr ysgol, ac mae'n sicrhau bod yr holl staff yn canolbwyntio'n effeithiol ar ddatblygu'r ddarpariaeth a chodi safonau. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel ohoni hi ei hun a'r tîm. Mae'r holl staff yn ymateb yn frwdfrydig a llwyddiannus i'r disgwyliadau hyn ac, o ganlyniad, mae'r ysgol yn gwneud cynnydd da tuag at dargedau'r cynllun gweithredu ôl-arolygiad.

Trwy gyfarfodydd y panel gwella ysgol, mae'r llywodraethwyr yn craffu'n fanwl ac yn gwerthuso cynnydd yr ysgol tuag at gamau gweithredu'r cynllun gweithredu ôl-arolygiad. Mae'r cynnydd yn erbyn yr holl argymhellion yn gadarn. Mae aelodau profiadol o staff dysgu yn arwain ar rai o'r blaenoriaethau ac yn cyfarfod yn rheolaidd gydag aelodau allweddol y corff llywodraethol er mwyn olrhain a gwerthuso cynnydd yn fanwl. Mae arweinwyr yn trefnu hyfforddiant ar gyfer staff ac yn mesur ei effaith yn drwyadl.

Mae gan pob aelod o staff swydd ddisgrifiadau manwl a chyfredol ac maent yn deall eu cyfrifoldebau'n dda. Mae strwythur cadarn o ddisgwyliadau uchel ac atebolrwydd eglur bellach wedi gwreiddio ar draws yr ysgol. Mae trefniadau rheoli perfformiad yn drylwyr. Mae amcanion staff yn cysylltu'n uniongyrchol gyda blaenoriaethau gwella'r ysgol, a'u hanghenion datblygiad personol.

## A6. Cryfhau'r broses hunanarfarnu er mwyn adnabod yn glir blaenoriaethau ar gyfer gwelliant a sicrhau cynnydd yn eu herbyn

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi cryfhau prosesau hunanwerthuso yn sylweddol. Bellach, mae arweinwyr wedi datblygu strwythur effeithiol a thrwyadl o graffu ar ansawdd y ddarpariaeth ac ar gynnydd disgyblion.

Mae'r pennaeth gweithredol, aelodau'r corff llywodraethol a'r athrawon, yn cydweithio'n llwyddiannus er mwyn adnabod cryfderau'r ysgol ac agweddau sydd angen eu datblygu ymhellach. Ers yr arolygiad craidd, maent wedi canolbwyntio'n briodol ar flaenoriaethau'r cynllun gweithredu ôl-arolygiad. Mae arweinwyr yn rhannu cyfrifoldeb am arwain blaenoriaethau, ac mae hyn wedi galluogi'r ysgol i adnabod

cryfderau ac agweddau ar gyfer gwelliant yn fwy effeithiol. Mae'r pennaeth gweithredol a'r corff llywodraethol wedi sefydlu amserlen o weithgareddau rheolaidd er mwyn gwerthuso cynnydd. Mae arweinwyr a staff yn craffu ar wersi a gwaith disgyblion yn rheolaidd, gan ddod i farn gytbwys ynglŷn â chynnydd ac adnabod agweddau sydd angen sylw pellach. Mae arweinwyr yn craffu ar gynlluniau staff gan ddarparu adborth datblygiadol, ac yn trafod gwaith a chynnydd gyda disgyblion. Maent yn darparu hyfforddiant ar gyfer y staff cyfan ac unigolion yn ôl y galw. Mae hyn oll wedi cryfhau atebolrwydd ar draws yr ysgol yn llwyddiannus.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn ymweld â gwersi yn rheolaidd ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o ddisgwyliadau mewn gwahanol agweddau cwricwlaidd. Mae'r pennaeth gweithredol wedi darparu hyfforddiant effeithiol ar eu cyfer sydd bellach yn eu galluogi i werthuso meysydd eu cyfrifoldeb yn hyderus. Maent yn craffu ar gynnydd disgyblion yn rheolaidd, gan werthuso cynnydd disgyblion o'u man cychwyn yn yr ysgol. Maent yn canolbwyntio ar gynnydd gwahanol grwpiau o ddisgyblion gan gynnwys y mwy abl a disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

O ganlyniad i'r amrediad effeithiol o weithdrefnau hunanwerthuso sydd wedi gwreiddio, mae'r ysgol yn sicrhau cynnydd da tuag at holl argymhellion yr arolygiad craidd.

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**